Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

20 Tachwedd 2019

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD HMICFRS: Taflu Goleuni ar Frad: Camddefnyddio swydd at ddibenion rhywiol

Mae'r adroddiad yn ymdrin â phwnc anodd ac erchyll iawn ac yn tynnu sylw cyfiawn at yr angen parhaus i ni i gyd fod yn wyliadwrus ac yn rhagweithiol iawn wrth sicrhau nad yw swyddogion na staff yr heddlu yn camddefnyddio eu pŵer at ddibenion rhywiol.

Mae Prif Swyddogion Heddlu De Cymru wedi bod yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r mater hwn oherwydd ei bwysigrwydd canolog i hyder yn yr heddlu ac mae hynny wedi cynnwys ystyried canfyddiadau ac awgrymiadau blaenorol ar y pwnc hwn. Mae'r mater wedi bod yn destun trafod gyda'r Prif Gwnstabl a'i ragflaenydd, ac rwy'n gwybod eu bod wedi ymrwymo'n gryf i gynnal y cynnydd sy'n cael ei wneud. Mae rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad eisoes yn cael eu rhoi ar waith neu wedi cael eu cwblhau. Er enghraifft, o ran yr argymhelliad cyntaf, cyfeiriwyd at gydymffurfiaeth yr heddlu â'r broses fetio yn Arolygiad PEEL 2019, a gyhoeddwyd ym mis Medi.

Mae fy nhîm a minnau'n gweithio'n agos gydag Adran Safonau Proffesiynol Heddlu De Cymru er mwyn monitro a deall y cynlluniau i ddileu unrhyw achosion o gamddefnyddio pŵer. Mae'r Prif Gwnstabl o'r un farn â minnau fod hwn yn fater difrifol a bod yn rhaid i Heddlu De Cymru ymrwymo i ddeall unrhyw broblemau yn ein heddlu a delio â nhw'n briodol.

Mae'r Prif Gwnstabl yn taflu rhagor o oleuni ar ei ymroddiad i hyn yn ei sylwadau ar yr adroddiad isod:

'Mae Heddlu De Cymru yn benderfynol o adnabod a datrys unrhyw ddigwyddiadau lle mae aelodau o staff a swyddogion yr heddlu yn camddefnyddio eu swydd; rydym yn plismona cymunedau De Cymru gyda chydsyniad y cyhoedd, ac rydym yn benderfynol o gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau a ddarperir gennym.

Mae mynd i'r afael á swyddogion yr heddlu sy'n camddefnyddio eu swydd at ddibenion rhywiol a sicrhau bod ffiniau proffesiynol yn cael eu cynnal yn brif flaenoriaeth i'r sefydliad, yn enwedig ein Hadran Safonau Proffesiynol a'n Timau Uwch-reolwyr.

Mae Heddlu De Cymru yn codi ymwybyddiaeth ymhlith staff a phartneriaid er mwyn sicrhau bod unigolion a allai fod o bosibl yn camddefnyddio eu pwerau er mwyn cyflawni cydberthnasau rhywiol ag unigolion sy'n agored i niwed yn cael eu

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

hadnabod yn gynnar. Mae dulliau casglu cudd-wybodaeth yn ei gwneud yn bosibl i ymyrryd yn gynnar fel bod dioddefwyr sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu, yn ogystal â bod aelodau o staff yn cael eu diogelu, lle bo hynny'n briodol.

Ein nod yw sicrhau bod proses glir ar waith y gellir ei dadansoddi a'i harchwilio i adnabod y swyddogion a'r staff hynny sy'n camddefnyddio eu pwerau a'u dwyn o flaen eu gwell er mwyn sicrhau y gellir cynnal lefel uchel o ymddiriedaeth y cyhoedd yn y gwasanaeth.

Ar 1 Hydref 2019, lansiwyd llinell uniondeb yr heddlu taclo'r tacle. Mae'r ymgyrch gyfathrebu dan arweiniad y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jeremy Vaughan, yn cael ei chefnogi gan amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a marchnata er mwyn annog y staff i gael yr hyder i roi gwybod am bryderon a sicrhau y gallant wneud hynny'n ddienw'.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, lansiwyd ein Cyd-Strategaeth i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol lle cawsom gefnogaeth gref gan un o Weinidogion Llywodraeth Cymru, Jane Hutt AC, a'r Comisiynydd Dioddefwyr, Y Fonesig Vera Baird CF. Yn ystod y digwyddiad lansio, a fynychwyd gan nifer o'n sefydliadau partner, roedd y cysylltiad rhwng ymddygiad rhai swyddogion a bygythiad sylweddol i hyder dioddefwyr yn amlwg iawn. Nid yw'n fater sy'n bodoli ar ei ben ei hun ac mae'n ymwneud â mwy na disgyblaeth yr heddlu yn unig.

I gloi, mae llawer o waith yn cael ei wneud yn lleol i ddelio â materion o gamddefnyddio pŵer a byddaf yn parhau i ddwyn yr heddlu i gyfrif ar y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn, yn ogystal â gweithio gyda'r Prif Gwnstabl er mwyn sicrhau bod yr argymhellion ar gyfer heddluoedd yn cael eu rhoi ar waith yma.

Yn gywir

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcome correspondence in Welsh or English